Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

# Bwletin y Farchnad HCC

Awst 2018

Mae canlyniadau dosbarthiad carcasau ar gyfer lladd-dai ym Mhrydain ar gyfer 2017, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn dangos cynnydd yn nifer yr ŵyn trymach, ond gostyngiad ym mhwysau carcas cyfartalog y gwartheg dethol. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y canlyniadau hyn.

Mae'r canlyniadau'n seiliedig ar arolwg sampl a wnaed mewn lladd-dai ar draws Prydain lle caiff carcasau eu dosbarthu yn ôl grid dosbarthiad EUROP.

## ŴYN

Mae'r ffigurau cyffredinol yn dangos fod 9.9% o'r ŵyn a ddosbarthwyd mewn lladd-dai yng Nghymru yn 2017 â chydffurfiad E, sef 2% yn llai nag yn 2016. Cynyddodd y cydffurfiadau U ac R 3.7% a 3.1%, yn ôl eu trefn, mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol. Graddiwyd llai o ŵyn yn O mewn cymhariaeth â 2016 (-16.3%); ychydig yn llai na 12% o'r ŵyn yn y sampl a gafodd y dosbarthiad hwn.

Yn 2017, rhoddwyd dosbarthiad braster 3L i 45% o'r ŵyn ledled Cymru, sef 5.6% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol; serch hynny, cafwyd cynnydd yn nifer yr ŵyn trymach yn nosbarthiadau 3H, 4L a 4H. Gallai hyn fod yn ganlyniad i gynhyrchwyr yn ymateb i'r prisiau siomedig a ddisgwylid yn hwyr yn 2017 trwy geisio cynyddu gwerth y carcas wrth farchnata eu hŵyn yn drymach. O ganlyniad i hyn, cynyddodd pwysau carcasau mewn lladd-dai yng Nghymru 0.2kg i 19.4kg ar gyfartaledd yn 2017.

**Canran yr holl garcasau ŵyn wedi eu dosbarthu yn ôl braster a chydffurfiad yn lladd-dai Cymru, 2013-2017**

| Dosbarth Braster | 1 | 2 | 3L | 3H | 4L | 4H | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2013 | 1.8 | 19.9 | 49.4 | 22.1 | 5.9 | 0.7 | 0.2 |
| 2014 | 0.8 | 16.2 | 52.5 | 23.1 | 6.2 | 1.0 | 0.2 |
| 2015 | 0.7 | 17.1 | 49.2 | 24.9 | 6.8 | 1.0 | 0.2 |
| 2016 | 1.0 | 19.4 | 47.9 | 23.9 | 6.7 | 0.9 | 0.1 |
| 2017 | 1.3 | 19.3 | 45.2 | 25.8 | 6.9 | 1.2 | 0.3 |

| Dosbarth Cydffurfiad | E | U | R | O | P |
|---|---|---|---|---|---|
| 2013 | 6.9 | 25.1 | 53.7 | 13.9 | 0.3 |
| 2014 | 8.8 | 28.2 | 51.6 | 11.3 | 0.1 |
| 2015 | 10.4 | 28.9 | 49.7 | 10.9 | 0.1 |
| 2016 | 10.1 | 27.0 | 48.8 | 14.1 | 0.0 |
| 2017 | 9.9 | 28.0 | 50.3 | 11.8 | 0.1 |

## GWARTHEG DETHOL

Mae canlyniadau'r arolwg o wartheg dethol yn 2017 yn seiliedig ar ladd-dai ym Mhrydain. Mae'r ystadegau'n dangos fod y rhan fwyaf (44.6%) o wartheg dethol yn 2017 â chydffurfiad R, sef 0.2% yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Dosbarthwyd mwy o wartheg yn O+ (+1.9%) neu –O (+5.4%) mewn cymhariaeth â 2016. Roedd llai o lawer o wartheg â chydffurfiad E yn ystod 2017 (- 28.6%), ac mae hynny o bosibl yn adlewyrchu dylanwad cynyddol y gwartheg godro a throi eto at fridiau brodorol.


Gyda'i gilydd, roedd dosbarthiadau braster 3 a 4L yn cyfrif am bron 80% o ddosbarthiadau gwartheg dethol yn 2017, gyda chynnydd o 4% yn nifer y gwartheg yn nosbarth braster 3. Mewn cymhariaeth â 2016, roedd 5.1% yn llai o wartheg trwm a raddiwyd yn 4H. O ganlyniad i hyn, gostyngodd pwysau carcasau'r gwartheg dethol mewn lladd-dai yng Nghymru 1.8kg yn 2017. Dosbarthwyd dros 30% o garcasau gwartheg dethol ym Mhrydain yn R3 ac R4L yn 2017, a byddent wedi derbyn y pris sylfaenol cyfartalog gan broseswyr ym Mhydain.

**Canran yr holl garcasau gwartheg dethol wedi eu dosbarthu yn ôl braster a chydffurfiad yn lladd-dai Prydain, 2017**

| | 1 | 2 | 3 | 4L | 4H | 5L | 5H | Cyffredinol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | 0.0 | 0.2 | 0.2 | 0.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.5 |
| U+ | 0.1 | 1.0 | 2.2 | 1.0 | 0.1 | 0.0 | 0.0 | 4.3 |
| U- | 0.1 | 1.5 | 6.2 | 5.9 | 1.2 | 0.0 | 0.0 | 14.9 |
| R | 0.1 | 2.9 | 16.2 | 18.9 | 6.2 | 0.4 | 0.0 | 44.6 |
| O+ | 0.1 | 1.5 | 7.4 | 9.2 | 3.2 | 0.3 | 0.0 | 21.7 |
| O- | 0.1 | 1.6 | 5.7 | 3.6 | 0.5 | 0.0 | 0.0 | 11.7 |
| P+ | 0.2 | 0.7 | 0.8 | 0.2 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 1.8 |
| P- | 0.2 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.4 |
| Cyffredinol | 1.0 | 9.4 | 38.7 | 38.9 | 11.2 | 0.7 | 0.1 | |


Dylai cynhyrchwyr cig oen a chig eidion anelu at ddiwallu rhagofynion y farchnad a'r cwsmer. Pennir y rhagofynion hyn drwy ddeall gofynion y cwsmer ac, ar yr un pryd, ceisio bod yn effeithlon wrth gynhyrchu a phrosesu. Bydd unrhyw garcasau (cig oen neu gig eidion) a gynhyrchir y tu allan i'r rhagofynion hyn yn arwain at gosb a chostau cynyddol i'r sawl sydd yn y gadwyn gyflenwi. O ystyried y strwythur taliadau sy'n bodoli ar hyn o bryd ymhlith y rhan fwyaf o broseswyr, byddai'n ddoeth i gynhyrchwyr strwythuro eu systemau magu a phesgi gyda golwg ar ragofynion y farchnad sy'n cael eu targedu. Er mwyn gwneud hyn, mae'n bwysig cael dealltwriaeth glir o'r gofynion hyn.

# Gwartheg




Mae prisiau gwartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr wedi gostwng yn ystod mis Gorffennaf, er bod niferoedd yr anifeiliaid wedi para'n gymharol gyson. Mae'r tywydd sych a gafwyd yn ddiweddar wedi golygu llai o laswellt i wartheg ei bori, sydd wedi peri i gynhyrchwyr werthu buchod yn gynnar, gan gynyddu cyflenwad.


**Prisiau'r farchnad yng Nghymru a Lloegr**; roedd y pris cyfartalog ar gyfer gwartheg dethol yn 190.9c/kg ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf yn diweddu 04 Awst, sef 3.7c yn is nag yn yr wythnos flaenorol, a 3.6c yn is nag yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn ynghynt. Mae'r prisiau'n dal i fod yn uwch na phrisiau 2016, er eu bod yn is nag yn 2017. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 28 Gorffennaf, roedd prisiau cyfartalog bustych a theirw ifainc yn is nag yn yr wythnos flaenorol, sef 184.3c a 176.4c yn ôl eu trefn, a chafwyd ychydig o gynnydd i 199.6c/kg. ym mhris heffrod. Mae'n bosibl fod y gostyngiad diweddar ym mhrisiau carcasau wedi digwydd am fod llai o alw am ddarnau cig i'w rhostio, a bod y toriadau'n cael eu prosesu'n friwgig sydd yn llai o werth, yn ôl adroddiadau o'r diwydiant ac ystadegau gan Kantar Worldpanel.





**Prisiau pwysau marw yng Nghymru a Lloegr**; mae prisiau gwartheg dethol wedi parhau'n gymharol sefydlog ers dechrau'r flwyddyn, ac roeddynt yn uwch na'r llynedd yn ystod mis Mehefin a dechrau Gorffennaf. Roedd pris cyfartalog bustych yng Nghymru a Lloegr ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 28 Gorffennaf yn 353.2c/kg, sef gostyngiad o 4.1c o'i gymharu â'r wythnos flaenorol, 10.2c yn is na'r llynedd. Yr wythnos yn diweddu 21 Gorffennaf oedd y tro cyntaf yn 2018 i brisiau fod yn is nag yn yr wythnos gyfatebol y llynedd. O'u cymharu â phrisiau wythnos yn gynharach, roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod a theirw ifainc wedi gostwng 2.7c a 7.7c i 354.9c/kg a 337.6c/kg, ôl eu trefn.

**Roedd nifer y gwartheg a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU**; yn 215,600 ym mis Mehefin, sef 7% yn llai nag ym mis Mai. Nifer y gwartheg dethol a laddwyd oedd y prif reswm am y gostyngiad; lladdwyd 160,300, sef 7% yn llai nag yn y mis blaenorol. Mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol y llynedd, lladdwyd 1.6% yn llai o wartheg dethol, ac roedd y gostyngiad mwyaf, sef 4.2%, yn nifer y bustych yn ystod mis Mehefin. Er y cafwyd gostyngiad o 2.2% yn nifer y teirw ifainc, mewn cymhariaeth â 2017, cafwyd cynnydd o 2.4% yn nifer yr heffrod.

Anfonwyd 49,000 o wartheg difa i ladd-dai yn y DU ym mis Mehefin, sef 0.3% yn fwy nag yn ystod mis Mehefin y llynedd. Mae'n debyg fod cynnydd yn nifer y buchod a anfonwyd i'w lladd oherwydd prinder porfa wedi cyfrannu at y cynnydd bychan hwn yn y gwartheg llawn-dwf.




# Defaid




Yn dilyn cyfnod wyna anodd a’r tywydd sych yn ddiweddar, mae niferoedd y defaid a anfonwyd i’w lladd yn dangos fod cynhyrchwyr yn ei chael hi’n anodd i ateb gofynion pori. Fel canlyniad, cynhyrchwyd llai o gig defaid am fod llai o ŵyn, gan gynnwys ŵyn na chafodd eu pesgi’n ddigonol, yn cael eu hanfon i’w lladd.

**Prisiau’r farchnad yng Nghymru**; Roedd y dyfynbris ansawdd safonol (SQQ) ar gyfer ŵyn Tymor Newydd mewn marchnadoedd da byw yn yr wythnos yn diweddu 04 Awst yn176.0c/kg, sef 19.9c yn is nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, ond 5.3c yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Am y tro cyntaf eleni, roedd niferoedd yr ŵyn tymor newydd a laddwyd ystod yr wythnos yn diweddu 28 Gorffennaf yng Nghymru yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, sef dros 17,000 o ŵyn. Mae hyn yn gynnydd o 10.7% mewn cymhariaeth â 2017, ac yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Er bod y niferoedd yn cynyddu, mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu fod ŵyn yn cael eu cyflwyno cyn iddyn nhw orffen pesgi am nad oes gan gynhyrchwyr ddigon o borfa oherwydd y tywydd sych. Fodd bynnag, mae rhai cynhyrchwyr yn gwerthu ŵyn trymach er mwyn ceisio digolledi eu hunain am y pris gostyngol – efallai trwy ddefnyddio dwysfwyd.


Prisiau ŵyn dethol (SQQ) ym marchnadoedd da byw Cymru




**Prisiau pwysau marw ym Mhrydain**; roedd prisiau ŵyn yn 432.9c/kg yn yr wythnos yn diweddu 21 Gorffennaf, sef bron 20c yn is na’r prisiau a gafwyd yn yr wythnos gyfatebol y llynedd, ond dros 15c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Ddechrau Gorffennaf, gostyngodd y pris pwysau marw am ŵyn yn is na’r flwyddyn flaenorol am y tro cyntaf yn 2018.


**Nifer y defaid a laddwyd yn lladd-dai’r DU**; Lladdwyd 872,500 o ŵyn dethol yn ystod mis Mehefin, sef 171,900 (16.5%)) yn llai na’r llynedd, a 4.2% yn llai nag ym mis Mai. Mae’n debygol taw’r rheswm am hyn oedd bod cynhyrchwyr eisoes wedi manteisio ar y prisiau uchel a gafwyd yn ystod y misoedd blaenorol, ynghyd a’r ffaith fod llai o ŵyn tymor newydd yn cael eu cyflwyno – eto oherwydd yr amodau cyfredol.

Lladd ŵyn dethol yn y DG




Lladdwyd 118,600 o famogiaid difa a hyrddod mewn lladd-dai yn y DU yn ystod mis Mehefin, sef 7% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, ond 5% yn llai nag ym mis Mai.


# Moch




Er gwaethaf y cynnydd bychan a gofnodwyd yn ddiweddar, mae'r gwahaniaeth rhwng pris cyfartalog yr holl foch ar hyn o bryd â'r llynedd yn fwy nag a fu ar unrhyw adeg eleni.

**Prisiau pwysau marw ym Mhrydain**; Parhaodd cyfartaledd prisiau'r holl foch (manyleb-UE) yn gymharol sefydlog ers dechrau'r flwyddyn, ac roedd y prisiau a gofnodwyd oddi ar ganol mis Ebrill yn fwy na 10c yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.  Yn ystod yr wythnos yn diweddu 21 Gorffennaf. roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) yn 153.2c/kg, sef 0.08c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol. Mae'r pris ar hyn o bryd bron 15c (8.8%) yn is nag oedd yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach, sef y bwlch mwyaf rhwng y naill flwyddyn a'r llall a welwyd hyd yma eleni.


Pris Cyfartalog Moch (Manyleb yr UE) ym Mhrydain




**Prisiau perchyll ym Mhrydain**; roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg yn £53.34 y pen yn yr wythnos yn diweddu 28 Gorffennaf, sef £2.05 yn is nag yn yr wythnos flaenorol. Mae hyn yn ostyngiad o 6.5% mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, sy'n adlewyrchu'r duedd bresennol ar gyfer moch wedi pesgi. Yn yr un wythnos, cafwyd cynnydd o 0.5c i £39.49 y mochyn ym mhris perchyll 7kg o'i gymharu ag wythnos yn gynharach - er bod y pris hwn yn 4.9% yn is na blwyddyn yn ôl.

**Cyfanswm y moch a laddwyd yn lladd-dai'r DU**; lladdwyd 852,600 o foch ym mis Mehefin, sef gostyngiad o 7.4% mewn cymhariaeth â mis Mai, a gostyngiad o 1.9% mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol y llynedd. Lladdwyd 831,700 o foch heb fagu, sef 16,200 (1.9%) yn llai nag ym mis Mehefin y llynedd a 7.4% yn llai nag ym mis Mai.

Lladd moch heb fagu yn y DG




Lladdwyd 20,900 o hychod a baeddod yn lladd-dai'r DU yn ystod mis Mehefin, sef bron 3.3% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, a 8.4% yn llai nag ym mis Mai.